Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

6. Cyflogi a rheoli pobl

6.4 Hysbysebu eich swydd

Rhaid ymgymryd yn ofalus â'r chwilio am ymgeiswyr addas a'r broses farchnata er mwyn sicrhau'r ymateb gorau ar gost isel. Y bwriad yw cael detholiad da o ymgeiswyr o ansawdd dda. Gellir ystyried y dulliau yma:

- **Recriwtio mewnol** - mantais y dull yma yw adeiladu ar sgiliau a hyfforddiant y staff sy'n bodoli, a darparu cyfleoedd datblygu a hyrwyddo. Mae'n ffordd dda i gadw gweithwyr gwerthfawr a datblygu eu sgiliau. Manteision eraill yw rhoi cyfle i'r staff ymestyn eu sgiliau er lles y mudiad a'r unigolyn, a chynyddu ysgogiad yr unigolyn. Mae defnyddio dull cyson a chlir, a gytunwyd ar y cyd rhwng y cyflogwyr a'r gweithwyr, yn creu llawer o fanteision ac yn osgoi drwgdybiaeth a ffafriaeth.
- **Canolfannau Gwaith yr Adran Gwaith a Phensiynau -** bydd y rhain yn arddangos y swyddi ac yn cyfeirio recriwtiaid posib. Maen nhw hefyd yn gweinyddu rhai o raglenni hyfforddi'r Llywodraeth. Gall staff Tîm Gwasanaeth Anabledd yn y Canolfannau Gwaith gyfeirio at anghenion penodol denu pobl anabl.
- **Cyngor Dysgu a Sgiliau** - gall hwn hyfforddi gweithwyr ar gael drwy'r gwasanaeth recriwtio, a gall deilwra hyfforddiant yn ôl gofynion y cyflogwr.
- **Asiantaethau recriwtio masnachol** - mae'r rhain yn arbenigo'n aml mewn mathau arbennig o waith, e.e. ysgrifenyddol, gwaith swyddfa, diwydiannol, cyfrifiaduro, a gall fod yna ymgeiswyr posib wedi cofrestru yno'n barod.
- **Mudiadau chwilio gweithiol** - fel arfer mae'r rhain yn gweithio yn y meysydd uwch rheoli / arbenigol, gallant chwilio am ymgeiswyr addas o fewn cwmnïau eraill drwy siarad yn uniongyrchol, neu trwy hysbysebu arbenigol.
- **Papurau cenedlaethol -** mae hysbysebu yn y wasg genedlaethol yn ddrud, ond yn debygol o gynhyrchu ymateb da yn enwedig ar gyfer swyddi arbenigol. Cofiwch hefyd fod yna bapurau ethnig cenedlaethol a all gyrraedd cynulleidfa eang.
- **Cylchgronau arbenigol a phroffesiynol -** llai costus na'r wasg genedlaethol, ond yn siŵr o gyrraedd y grŵp ymgeiswyr penodol ar gyfer swyddi arbenigol a phroffesiynol.
- **Y We** - mae hwn yn dechrau ymddangos fel cyfrwng recriwtio allweddol. Defnyddir gan amlaf ar gyfer swyddi graddedig a thechnegol, am ei fod yn tueddu targedu grŵp hunan-ddetholedig sy'n medru defnyddio cyfrifiadur ac sy'n medru defnyddio'r we yn ei safle gwaith. Bydd ei ddefnydd yn debygol o dyfu.

- **Papurau a radio lleol** - am swyddi llai arbenigol, neu i dargedu grwpiau mewn ardal benodol; gall hysbysebion yn y cyfryngau lleol gynhyrchu ymateb da.
- **Ysgolion, colegau a Gwasanaeth Gyrfaoedd lleol** - bydd cynnal cysylltiad gydag ysgolion, colegau ac ymgynghorwyr gyrfaoedd yn sicrhau ymwybyddiaeth am anghenion y mudiad. Gall fod yn hynod ddefnyddiol i gynnig cyfle i'r myfyrwyr dreulio amser gyda'r cwmni, ar brofiad gwaith, neu 'gysgodi'.
- **Ar lafar** - cyflwyno drwy weithwyr presennol neu drwy rwydwaith cyflogwyr. Er bod hyn yn economaidd, gall arwain at grŵp llai o ymgeiswyr addas, ac ni fydd yn bodloni gofynion cyfleoedd cyfartal oherwydd yr anghydbwysedd a all ddigwydd yn y gweithlu. Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol a'r Comisiwn Cyfle Cyfartal yn rhybuddio yn erbyn yr ymarfer yma ble mae'r gweithlu gan amlaf yn un rhyw neu grŵp hiliol.

Unwaith y penderfynir ar y sianel neu'r sianelau recriwtio, y cam nesaf yw ystyried:

- Cynllun a chynnwys yr hysbyseb a ddefnyddir.
- Sut fydd yr ymgeiswyr yn ymateb - ffurflen gais, ffacs, ffôn, yn bersonol yn y mudiad neu asiantaeth, llythyr, e-bost ar y we, tâp neu Braille.
- Pwy sy'n gyfrifol am edrych ar y ceisiadau? Beth fydd y broses ddethol?
- Os gynhelir cyfweliadau, pryd fydd hynny ac a fydd pawb ar gael?
- A ddefnyddir profion dethol? Oes yna arbenigedd i'w gweinyddu a sicrhau eu bod yn anffafriol ac yn addas?
- A ofynnir am eirda / archwiliad meddygol?
- Oes yna drefniadau i roi cydnabyddiaeth o dderbyn ffurflenni cais?

Yr hysbyseb

Rhaid cynllunio a chyflwyno unrhyw hysbyseb yn effeithiol i sicrhau denu'r ymgeiswyr iawn. Edrychwch drwy'r papurau cenedlaethol, lleol a phroffesiynol i weld pa hysbysebion sy'n ddeniadol. Bydd swyddfa'r papur yn medru rhoi cyngor ar fformatau addas. Rhaid teilwra'r hysbysebion at lefel y gynulleidfa darged, a dylai fod yn glir ac yn ddealladwy. Rhaid iddynt fod yn anffafriol, a dylent osgoi unrhyw genedl neu iaith ddiwylliannol benodol. I gefnogi hyn, dylai'r mudiad gynnwys datganiad ymrwymiad i gyfleoedd cyfartal, a fydd yn tanlinellu'r mudiad fel un sy'n croesawu ceisiadau o bob cwr o'r gymuned.

Ystyriwch y ffactorau canlynol yn yr hysbyseb:

- Os yw'r mudiad yn adnabyddus, oes ganddo logo i'w arddangos yn flaenllaw yn yr hysbyseb? Gwnewch y logo yn gyson gyda delwedd y cwmni.
- Ai teitl y swydd fydd nodwedd fwyaf blaenllaw'r hysbyseb?
- Cadwch y testun yn fyr ac yn syml wrth nodi prif agweddau'r swydd, cyflog, rhagolygon gyrfa, lleoliad, hyd y cytundeb.
- Ellwch chi roi manylion penodol - megis cyflog, cymwysterau a phrofiad - mewn ffordd a fydd yn lleihau nifer ymgeiswyr anaddas?

- Ydy hi'n bosib osgoi cyffredinoli megis ' cyflog deniadol', neu 'cymwysterau addas' a all wrthod ceisiadau dilys?
- Ellwch chi ddarparu manylion y swydd ar dâp neu ar ffurf Braille a derbyn ceisiadau yn yr yn ffurf?
- Ydy ffurf ateb a'r dyddiad cau yn glir? Oes yna enw a rhif ffôn cyswllt ar gyfer gwybodaeth bellach ac ymholiadau?

Dylai pob hysbyseb ddefnyddio'r un wybodaeth, boed yn fewnol neu'n allanol.

Gwybodaeth bellach

ACAS
Ffôn: 08457 474747
www.acas.org.uk

Home Office (Asylum)
0845 602 1739
www.ind.homeoffice.gov.uk

Health and Safety Executive (HSE)
Ffôn: 08701 545500
www.hse.gov.uk

Information Commissioner's Office
Ffôn: 01625 545745
www.ico.gov.uk

Network Jobs – Wythnosol
networkjobs@wcva.org.uk
Ffôn: 0800 2888 329

Ymwadiad
Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro
36-38 Stryd Fawr, Hwlffordd, Sir Benfro, SA61 2DA
Elusen Gofrestredig *1063289*

Ffôn: 01437 769422 info@pavs.org.uk
Ffacs: 01437 769431 www.pavs.org.uk

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddaru:14/09/2007

Cyngor Gwirfoddol Cymru WCVA Wales Council for Voluntary Action
Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk